

Strategaeth Atal Twyll ac Arferion Llwgr 2020-2025

Hydref 2020

Strategaeth Atal Twyll ac Arferion Llwgwr 2020-2025

<u>Tabl o'r Cynnwys</u>	<u>Tudalen</u>
1. Cyflwyniad	3
2. Cwmpas	4
3. Diffiniadau Twyll ac Arferion Llwgwr	4
3.1 Beth yw Twyll?	4
3.2 Beth yw Arferion Llwgwr?	4
3.3 Beth yw Dwyn?	5
3.4 Beth yw Gwyngalchu Arian?	5
3.5 Meysydd i gael sylw yn y Strategaeth	6
4. Diwylliant	7
5. Rhoi Gwybod am Dwyl ac Arferion Llwgwr	8
5.1 Twyll Budd-dal Tai	8
5.2 Twyll Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	8
5.3 Twyll neu Gamddefnydd o'r Bathodyn Glas	8
5.4 Mathau eraill o dwyl a gyflawnir yn erbyn Cyngor Sir Caerfyrddin	8
5.5 Monitro ac Adrodd	9
6. Canfod ac Ymchwilio	9
7. Atal	10
7.1 Gweithio gyda Sefydliadau/Partneriaid	10
7.2 Aelodau	11
7.3 Staff	11
7.4 Cydweithio i atal Twyll ac Arferion Llwgwr	11
8. Hybu ymwybyddiaeth o waith atal twyll ac arferion llwgwr	11
9. Nodau ac Amcanion y Strategaeth	12
10. Casgliad	12

Atodiad: Siart Llif Rhoi Gwybod am Dwyl ac Arferion Llwgwr

1.0 Rhagarweiniad

Cyngor Sir Caerfyrddin yw un o'r Awdurdodau unedol mwyaf yng Nghymru, a'r cyflogwr mwyaf yn yr ardal gyda thros 8,000 o weithwyr. Mae gennym gyllideb flynyddol o fwy na £586 miliwn, ac rydym yn darparu cannoedd o wasanaethau i fwy na 180,000 o breswylwyr. Mae'r Cyngor yn berchennog ar asedau sylweddol, yn gweithredu amrywiaeth o systemau ac yn ymdrin bob dydd ag amrywiaeth fawr o gontractwyr a chwsmeriaid. Mae ystod a natur amrywiol y gwasanaethau a gweithgareddau, ynghyd â maint ei weithrediadau a'i gyllidebau, yn anochel yn creu perygl twyll ac arferion llwgr i Gyngor Sir Caerfyrddin, o ffynonellau mewnol ac allanol fel ei gilydd.

Nid yw twyll yn drosedd lle nad oes neb yn dioddef, a gall effeithio arnom ni i gyd. **Y gost ariannol** – mewn termau ariannol, mae twyll yn costio biliynau o bunnoedd i'r wlad bob blwyddyn. Mae hefyd yn effeithio ar faint o arian sydd gennym i'w wario ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Y gost ddynol – Mae yna gostau eraill nad ydynt mor amlwg o ganlyniad i rai mathau o dwyll. e.e, un canlyniad i Dwyll Tenantiaethau Tai Cyngor yw bod llai o leoedd ar gael gan amddifadu teuluoedd a phobl agored i niwed sydd ar y rhestr aros.

Mae Llywodraethu Corfforaethol da yn mynnu bod yn rhaid i'r Awdurdod ddangos yn glir ei fod wedi ymrwymo i fynd i'r afael â thwyll ac arferion llwgr ac y bydd yn ymdrin yn gyfartal â chyflawnwyr o'r tu mewn (Aelodau a gweithwyr) ac o'r tu allan i'r Cyngor. At

hynny, wrth ymchwilio a chymryd camau ni wahaniaethir rhwng achosion sy'n cynhyrchu buddion ariannol a rhai nad ydynt yn gwneud hynny. Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus gyflawni datblygu cynaliadwy, sy'n golygu'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd y strategaeth hon yn cyflawni rôl bwysig o ran sicrhau ein bod yn dilyn 7 egwyddor Llywodraethu Da, a bennir gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) drwy ymddwyn ag uniondeb, arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu grym y gyfraith. Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref. Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio er mwyn darparu atebolrwydd effeithiol.

Mae llawer iawn o graffu allanol ar faterion y Cyngor gan amrywiaeth o gyrff gan gynnwys:

- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Archwilio Cymru
- Adrannau'r Llywodraeth Ganolog a Chomisiynau Seneddol
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Llywodraeth Cymru

Mae cysylltiad agos rhwng y strategaeth hon a pholisïau cyfredol yn yr Awdurdod sy'n darparu canllawiau i'r staff ar atal a rhoi gwybod am dwyll ac arferion llwgr. Mae'r rhain yn cynnwys Rheolau Gweithdrefnau Ariannol, [Polisi Datgelu Camarfer](#), [Codau Ymddygiad a Safonau'r Awdurdod](#), a [Gweithdrefnau Twyll Budd-daliadau](#).

2.0 Cwmpas

Mae'r strategaeth hon yn berthnasol i'r canlynol:

- Holl weithwyr Cyngor Sir Caerfyrddin (gan gynnwys gwirfoddolwyr a staff asiantaeth);
- Cynghorwyr;
- Staff ac Aelodau Pwyllgor sefydliadau gwirfoddol a ariannir gan y Cyngor;
- Partneriaid Cyngor Sir Caerfyrddin;
- Partneriaid GIG;
- Ysgolion Cyngor Sir Caerfyrddin;
- Cyflenwir, contractwyr ac ymgynghorwyr y Cyngor;
- Cwsmeriaid.

3.0 Diffiniadau – Twyll ac Arferion Llwrgr

Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin agwedd **dim goddefgarwch** at bob math o dwyll, arferion llwrgr a dwyn, oddi mewn i'r cyngor ac o ffynonellau allanol. Rydym yn cydnabod y gall twyll:

- Danseilio'r safonau gwasanaeth cyhoeddus mae'r Cyngor yn ceisio eu cyrraedd;
- Lleihau'r adnoddau a gwasanaethau sydd ar gael i breswylwyr Sir Gaerfyrddin; ac
- Arwain at ganlyniadau o bwys sy'n lleihau hyder y cyhoedd yn y Cyngor.

3.1 Beth yw Twyll?

Twyll yw gweithred neu anweithred droseddol a fwriedir er elw personol neu y bwriedir iddo beri colled i berson neu sefydliad arall. (Deddf Twyll 2006, deddfwriaeth y Deyrnas Unedig). Mae hyn yn cynnwys:

- **Ymhonni'n anwir gan wybod hynny** – lle bo unigolyn yn anonest a chan wybod hynny yn gwneud ymhoniad sy'n anwir neu'n gamarweiniol.
- **Peidio â datgelu gwybodaeth** – lle bo unigolyn, ar gam ac yn anonest, yn peidio â datgelu gwybodaeth i berson arall pan fo dyletswydd gyfreithiol arno i'w datgelu, neu lle bo'r wybodaeth o fath yr ymddiriedir ynddo i'w datgelu, neu y disgwylid yn rhesymol iddo ei datgelu.
- **Camddefnyddio safle** – lle bo unigolyn y rhoddwyd safle iddo, y disgwylir iddo yn y safle hwnnw ddiogelu buddiannau ariannol person arall, yn anonest ac yn ddirgel yn camddefnyddio'r safle o ymddiriedaeth hwnnw yn ddarwybod i'r person arall.

Gall twyll gael ei gyflawni yn erbyn unigolion, busnesau neu sefydliadau eraill gan gynnwys Cyngorau.

Gall twyll gael ei gyflawni gan bobl y tu mewn neu'r tu allan i'r Cyngor, naill ai gan weithredu ar eu pen eu hunain neu fel rhan o grŵp.

3.2 Beth yw Arferion Llwrgr?

Ystyrir mai arferion llwrgr yw:

Cynnig, rhoi, ceisio neu dderbyn unrhyw gymhelliad neu wobwr, a fyddai'n dylanwadu ar y gweithredoedd a gyflawnir gan y corff, ei aelodau neu ei swyddogion.

Mae Deddf Llwrgrwobrwy 2010, deddfwriaeth y Deyrnas Unedig yn disgrifio trosedd llwrgrwobrwy ac yn nodi 4 prif drosedd:

- **Llwgrowbrwyo person arall** – Mae person yn cyflawni trosedd trwy gynnig, addo neu roi mantais ariannol neu arall i berson arall, yn uniongyrchol neu drwy gyfryngwr: gan fwriadu i'r fantais honno gymell person i gyflawni swyddogaeth yn amhriodol neu i wobrwyo person am wneud hynny (pa un a ydyw yr un person y cynigir y fantais iddo ai peidio) neu gan wybod neu gredu mai cyflawni swyddogaeth yn amhriodol fyddai derbyn y fantais ynddo ei hun.
- **Cael ei llwgrowbrwyo** - Mae person yn cyflawni'r drosedd hon trwy geisio, cytuno i gael neu dderbyn mantais ariannol neu arall, yn uniongyrchol neu drwy drydydd parti, er ei fudd ei hun neu er budd rhywun arall: mae'r person hwnnw'n bwriadu y bydd swyddogaeth yn cael ei chyflawni'n amhriodol o ganlyniad, neu mae swyddogaeth yn cael ei chyflawni'n amhriodol (boed fel gwobr, wrth ragweld neu o ganlyniad i geisio, cytuno neu dderbyn y fantais). Mae'n bosibl mai cyflawni swyddogaeth yn amhriodol yw ceisio, cytuno neu dderbyn y fantais, ynddo ei hun.
- **Llwgrowbrwyo Ffigwr Cyhoeddus Tramor** – Bydd y drosedd hon yn cael ei chyflawni os yw person yn cynnig neu'n rhoi mantais ariannol neu arall i swyddog cyhoeddus tramor gyda'r

bwriad o ddylanwadu ar y swyddog cyhoeddus tramor a chael neu gadw busnes, lle nad oedd cyfraith ysgrifenedig yn caniatáu neu'n ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog cyhoeddus tramor gael ei ddylanwadu yn y fath fodd; a

- **Peidio ag atal llwgrowbrwyo** – Mae 'atebolrwydd caeth' ar gwmni am unrhyw llwgrowbr a delir gan berson sy'n cyflawni gwasanaethau ar ei ran, oni fo'r sefydliad yn profi bod gweithdrefnau gwrth llwgrowbrwyo digonol ar waith.

Y gosb fwyaf am y troseddau yw 10 mlynedd o garchar a/neu ddirwy ddigyfyngiad. Am beidio ag atal trosedd, y ddirwy yn unig sy'n berthnasol.

3.3 Beth yw Dwyn?

- Mae person yn euog o ddwyn os yw'n meddiannu'n anonest eiddo sy'n perthyn i rywun arall gyda'r bwriad o amddifadu'r llall ohono'n barhaol; ac fe ddeallir "lleidr" a "dwyn" yn yr un modd.
- Nid yw'n berthnasol a feddiannir yr eiddo gyda golwg ar elw, neu er budd y lleidr ei hun.

[\(Deddf Dwyn 1968. Legislation.gov.uk\)](#)

3.4 Beth yw Gwyngalchu Arian?

Gwyngalchu Arian yw'r broses mae troseddwyr yn ei defnyddio i geisio 'ailgylchu' yr enillion o'u gweithgareddau troseddol er mwyn celu eu tarddiad a'u perchnogaeth ac ar yr un pryd cadw'r gallu i ddefnyddio'r arian.


Ar y Cyngor mai baich adnabod a rhoi gwybod am weithredoedd gwyngalchu arian. Mae'n bosibl i unrhyw wasanaeth sy'n cael arian oddi wrth berson neu gorff allanol fod yn agored i weithgarwch gwyngalchu arian. Mae'r angen i fod yn wiliadwrus yn hanfodol a dylid rhoi gwybod i'r Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol

am unrhyw amheuaeth ynghylch priodoldeb trafodyn a gofyn iddo am gyngor.

Mae'r Cyngor yn cydnabod ei gyfrifoldebau o dan [Reoliadau Gwyngalchu Arian 2007](#) a [Deddf Enillion Troseddau 2002](#).

3.5 Meysydd i gael sylw yn y Strategaeth

Nod Strategaeth Atal Twyll ac Arferion Llwgwr 2020-2025 fydd rhoi sylw i'r meysydd canlynol:



4. Diwylliant

Diwylliant o fod yn agored sydd gan y Cyngor erioed ac mae'r gwerthoedd craidd, sef Uniondeb, Cymryd Cyfrifoldeb a Rhagoriaeth, yn cefnogi hyn. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i'r safonau moesegol a moesol uchaf ac yn benderfynol mai diwylliant o **onestrwydd, uniondeb a thryloywder** fydd gan y sefydliad. Yn sylfaenol i'r gwerthoedd craidd hyn mae ei ymrwymiad i frwydro yn erbyn twyll ac arferion llwgr.

Mae atal/canfod twyll, llwgrwobrwyo ac arferion llwgr ac **amddiffyn y pwrs cyhoeddus** yn gyfrifoldeb ar bawb, y tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad. Mae Aelodau Etholedig a gweithwyr y Cyngor yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o greu'r diwylliant hwn. Eir ati i'w hannog i godi pryderon ynghylch twyll ac arferion llwgr, ni waeth pa mor uchel ydynt yn y sefydliad. Mae gan aelodau o'r cyhoedd ran i'w chwarae yn y broses hon hefyd a dylent roi gwybod i'r Cyngor os ydynt yn teimlo bod twyll/arferion llwgr wedi digwydd.

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn parhau i ymrwymo i bolisi dim goddefgarwch mewn perthynas â thwyll ac arferion llwgr. Nod yr Awdurdod yw darparu gwasanaethau cyhoeddus ardderchog ac mae angen iddo sicrhau priodoldeb ac atebolrwydd ym mhopeth. Mae hawl gan y cyhoedd i ddisgwyl y caiff arian cyhoeddus ei wario'n briodol, yn dryloyw ac ar wasanaethau hanfodol mewn modd effeithlon, effeithiol a darbodus. Mae'r Cyngor yn benderfynol o amddiffyn ei hun a'r cyhoedd rhag twyll ac arferion llwgr. Mae wedi ymrwymo i gynnal yn gadarn strategaeth i atal a chanfod twyll ac arferion llwgr, sydd wedi'i bwriadu i:

- Hybu gwaith canfod,
- Cyflawni ymchwiliadau a hwyluso gwaith adennill,
- Bod yn arf ataliol yn erbyn twyll ac arferion llwgr yn y dyfodol,
- Caniatáu i'r Awdurdod weithredu yn y ffordd gryfaf yn erbyn unrhyw gamymddwyn,
- Cynnal, monitro a chyfleu polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig,
- Peidio â goddef cyhuddiadau ffug o dwyll.



- Godi ymwybyddiaeth o dwyll ac arferion llwgr,
- Hybu gwaith atal,

5. Rhoi Gwybod am Dwyll ac Arferion Llwrgr

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol:

Rhaid rhoi gwybod ar unwaith i Bennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol am unrhyw amheuan ynghylch twyll neu arferion llwrgr gan unrhyw swyddog neu aelod o'r Cyngor. Pan gofnodir enghreifftiau ar y Gronfa Ddata Datgelu Camarfer, y Swyddog Monitro fydd yn gyfrifol am gyfeirio'r mater yn ffurfiol at Bennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol. Ni ddylai unrhyw adran geisio cynnal ymchwiliad mewnol. Bydd Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol yn trefnu cynnal yr ymchwiliad angenrheidiol. Pan ymddengys, yn dilyn yr ymchwiliad, bod sail resymol i awgrymu bod swyddog yn euog o dwyll neu arferion llwrgr, bydd Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol yn trafod y mater gyda'r Swyddog Adran 151, a fydd yn gyfrifol am benderfynu a ddylid cyfeirio'r mater yn ffurfiol at sylw'r Heddlu.

Bydd pob achos o dwyll neu arferion llwrgr tybiedig yn cael ei adrodd i Brif Weithredwr yr Awdurdod.

Dwyn: Os bydd arian parod neu eitemau'n cael eu dwyn, fel arfer dylid rhoi gwybod i'r Heddlu ar unwaith. Os amheuir y gallai aelod o'r staff fod â rhan yn y dwyn, gallai fod yn briodol cysylltu â'r Adran Archwilio Mewnol cyn cyfeirio'r mater yn ffurfiol at yr Heddlu. Rhaid i'r penderfyniad hwn gael ei wneud gan Bennaethiaid Gwasanaeth yr Isadrannau gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. Os bydd y mater yn cael ei gyfeirio'n uniongyrchol at yr Heddlu, mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol am y cyfeiriad cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl. Dylid hysbysu'r Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol ynghylch pob achos o ddwyn arian parod neu eitemau.

Anogir hysbysiadau am dwyll o bob ffynhonnell, gan gynnwys staff a'r cyhoedd.

Gellir rhoi gwybod am dwyll yn gyfrinachol yn y ffyrdd canlynol:

5.1 Twyll Budd-dal Tai

Gellir rhoi gwybod am honiadau o dwyll ar lein trwy anfon at fraud@sirgar.gov.uk neu dros y ffôn i dîm Twyll a Chydymffurfiaeth y Cyngor ar 01554 742129.

Gallwch hefyd roi gwybod am dwyll budd-daliadau trwy ffonio'r Llinell Frys Twyll Budd-daliadau Genedlaethol. Mae'r Llinell Frys ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm ar 0800 854440. Mae Llinell Frys Gymraeg benodol ar gael hefyd ar 0800 6783722.

5.2 Twyll Gostyngiadau'r Dreth Gyngor/Twyll Disgownt ac Eithriad i'r Dreth Gyngor:

Gellir rhoi gwybod am honiadau o dwyll ar lein trwy anfon at fraud@sirgar.gov.uk neu dros y ffôn i dîm Twyll a Chydymffurfiaeth y Cyngor ar 01554 742129.

5.3 Twyll neu Gamddefnydd o'r Bathodyn Glas

Mae'n drosedd camddefnyddio bathodyn glas a gall arwain at erlyniad, dirwy o hyd at £1000, cymryd y bathodyn a hefyd unrhyw gosb ychwanegol am y drosedd parcio gysylltiedig. Os ydych chi'n credu bod rhywun yn camddefnyddio hawlen parcio bathodyn glas gallwch roi gwybod am hyn ar-lein trwy anfon neges at fraud@sirgar.gov.uk neu dros y ffôn i dîm Twyll a Chydymffurfiaeth y Cyngor ar 01554 742129.

5.4 Mathau eraill o Dwyll a gyflawnir yn erbyn Cyngor Sir Caerfyrddin:

Os hoffech siarad â rhywun ynglŷn â thwyll sydd wedi'i gyflawni yn erbyn Cyngor Sir Caerfyrddin, gallwch gysylltu â'r Pennaeth

Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol drwy ffonio 01267 246223.

Gall aelodau o'r cyhoedd hefyd wneud apwyntiad i fynd i un o'n Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid yn Rhydaman, Caerfyrddin neu Lanelli. Os ydych chi'n fyddar neu'n drwm eich clyw gallwn hefyd ddarparu dehonglydd iaith arwyddion; rhowch wybod inni pan wnewch apwyntiad.

Gallwch hefyd anfon neges e-bost at galw@sirgar.gov.uk.

Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin [Bolisi Datgelu Camarfer](#) a reolir gan y swyddog monitro. Mae'r polisi hwn yn galluogi gweithwyr i godi pryderon a hefyd i ddiogelu eu buddiannau yn unol â Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998.

5.5 Monitro ac Adrodd

Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei ddarparu i Bwyllgor Archwilio'r Awdurdod i fonitro'r broses o weithredu'r strategaeth hon.

Bydd adroddiadau rheolaidd am dwyll tybiedig a phroffedig yn cael eu darparu i'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Bydd y Tîm Rheoli Corfforaethol yn monitro effeithiolrwydd trefniadau i Atal Twyll ar draws yr Awdurdod.

6. Canfod ac Ymchwilio

Mae'r Adran Archwilio Mewnol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ganfod twyll, llwgrwobrwyo ac arferion llwgr. Mae ei chynllun strategol yn cynnwys adolygiadau o reolaethau system gan gynnwys rheolaethau ariannol a phrofion penodol am dwyll ac arferion llwgr, a bydd yn cyflawni hapwiriadau. Mae'r Adran Archwilio Mewnol yn cyflawni ymarferion paru data helaeth i ganfod twyll posibl gan gymharu setiau data rhwng ac o fewn

systemau er mwyn canfod anghysondebau a allai ddangos gweithgarwch twyllodrus.

Yn ogystal â gwaith Archwilio Mewnol, mae nifer fawr o systemau a rheolaethau rheoli ar waith i atal twyll ac arferion llwgr ond yn aml gwyliadusrwydd gweithwyr ac aelodau o'r cyhoedd sy'n cynorthwyo â chanfod y rhain. Bwriad Polisi Datgelu Camarfer y Cyngor yw annog a galluogi gweithwyr i godi eu pryderon.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i gyfrannu at y Fenter Twyll Genedlaethol sy'n cael ei chydgyssylltu gan Archwilio Cymru (a gyflawnir pob dwy flynedd) lle caiff setiau data ar ystod o ddarpariaeth gwasanaethau eu cymharu â data Awdurdodau Lleol a Chyrff Cyhoeddus eraill er mwyn canfod eithriadau, a allai gynnwys gweithgarwch twyllodrus.

Bydd yn ofynnol i unrhyw benderfyniad i gyfeirio achos o dwyll neu arferion llwgr a amheuir at yr Heddlu ar gyfer ymchwiliad troseddol gynnwys y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol a'r Cyfarwyddwr perthnasol neu yn eu habsenoldeb unrhyw un o'r swyddogion hyn neu eu cynrychiolwyr enwebedig.

O dan agwedd dim goddefgarwch yr Awdurdod, bydd pob achos o Dwyl ac Arferion Llwr yn cael ei drafod â'r Heddlu gyda golwg ar fwrw ymlaen ag erlyniad.

Gan ddibynnu ar natur yr honiad bydd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol yn cydweithio'n agos â'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol er mwyn sicrhau yr ymchwiliad i bob honiad yn drylwyr ac yr adroddir arno.

Bydd [Gweithdrefnau Disgyblu](#) yr Awdurdod yn cael eu defnyddio i hwyluso ymchwiliad trylwyr i unrhyw honiadau o ymddygiad amhriodol gan weithwyr. Bydd achosion sy'n ymwneud ag Aelodau Etholedig yn

cael eu cyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Caiff ymchwiliadau eu cyflawni heb oedi gan aelodau o'r staff sydd â chymwysterau addas yn yr Adran Archwilio Mewnol a'r tîm Twyll a Chydymffurfiaeth, sy'n ymwybodol o faterion yn ymwneud â Diogelu Data a Hawliau Dynol ac yn arbennig Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2016. O dan y Ddeddf hon gosodir amodau caeth ar gyflawni arsylwadau a gwyliadwriaeth ac mae angen cymeradwyaeth benodol ar gyfer y rhain.

7. Atal

Ein nod yw atal twyll ac arferion llwgr rhag digwydd yn y lle cyntaf. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, byddwn yn gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu, drwy ddeall gwraidd y broblem a'u hatal rhag digwydd eto, gan sicrhau'r canlynol:

- Bod yna reolau a gweithdrefnau clir y gall Aelodau, gweithwyr a chwsmeriaid weithio yn unol â hwy; bod y rhain yn cael eu cynnal, eu cyfleu a'u gorfodi.
- Bod Amgylchedd Rheolaeth Mewnol cadarn wedi'i sefydlu a bod lefelau priodol o wiriadau mewnol wedi'u cynnwys mewn arferion gweithio, yn arbennig gweithdrefnau ariannol.
- Ein bod yn gweithio gyda sefydliadau eraill / partneriaid i atal a chanfod twyll ac arferion llwgr.
- Bod y Côt Ymddygiad sydd wedi'i sefydlu ar gyfer Aelodau a staff yn effeithiol.
- Ein bod yn gweithio gyda phartneriaid i atal twyll a gwella gwybodaeth.
- Bod strategaeth Atal Twyll ac Arferion Llwgr yr Awdurdod yn cael ei hyrwyddo i bob parti gan gynnwys Aelodau, staff,

defnyddwyr gwasanaethau a chwsmeriaid.

- Bod Risgiau Twyll yn cael eu cynnwys yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol a Chofrestri Risg Gwasanaethau.
- Lle bo'n briodol, byddwn yn gweithio i gael gwared ar arian parod o'r system drwy ystyried opsiynau digidol di-arian, er mwyn lleihau risg.
- Byddwn yn rhoi'r hyfforddiant priodol i staff ac Aelodau ynghylch atal a chanfod twyll ac arferion llwgr.

Rhaid i Amgylchedd Rheolaeth Mewnol cadarn gael ei wreiddio yn y Cyngor lle mae Uwch Reolwyr yn sicrhau bod rheolaethau effeithiol ar waith yn yr holl systemau er mwyn lleihau risg twyll neu arferion llwgr.

Mae gwasanaethau Archwilio Mewnol ac Allanol yn rhoi cymorth i'r rheolwyr trwy gyflawni gwerthusiad annibynnol o reolaethau mewnol, gan adrodd i'r rheolwyr a lle bo angen i'r Pwyllgor Archwilio.

Bydd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sy'n cael ei ethol fel Hyrwyddwr Gwrth-dwyll y Cyngor yn hyrwyddo agwedd **dim goddefgarwch** y Cyngor at dwyll.

7.1 Gweithio gyda Sefydliadau/Partneriaid Eraill

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym yn gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ganfod atebion cynaliadwy a rennir. Mae'r Awdurdod yn cydweithredu fwyfwy ag asiantaethau a chyrff eraill i ddarparu gwasanaethau effeithiol; mae hyn yn cynnwys cydweithio â'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Heddlu. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sydd ar waith gyda Heddlu Dyfed-Powys yn pwysleisio ein bwriad a'n hymrwymiad i fynd i'r afael â thwyll ac arferion llwgr yn erbyn yr Awdurdod.

Rhaid i reolwyr sicrhau bod y fframwaith angenrheidiol ar waith i frwydro yn erbyn twyll ac arferion llwgr pan fo'r Awdurdod yn gweithio gyda sefydliadau eraill naill ai trwy gontract neu mewn partneriaeth. Ni ddylai'r Awdurdod ymrwmo i unrhyw gytundeb contractiol gyda sefydliad sy'n peidio â chadw at Godau Ymarfer Cyngor Sir Caerfyrddin a/neu weithdrefnau cysylltiedig eraill.

7.2 Aelodau

Mae'n ofynnol i'r Aelodau gadw at y '[Côd Ymddygiad i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig](#)'. Mae'r côd hwn yn darparu rheolau ar ddatgan buddiannau, rhoddion a lletygarwch. Cedwir cofrestr a chaiff datganiadau buddiannau Aelodau eu cofnodi'n ffurfiol yn y cofnodion.

7.3 Staff

Rhaid i weithwyr gydymffurfio â [Chôd Ymddygiad y Cyngor i Weithwyr](#). Mae'r Côd yn manylu ar y safonau y mae'n rhaid i bob gweithiwr eu cynnal er mwyn cynnal uniondeb gweithgareddau'r Cyngor. Mae'r Côd yn cynnwys rheolau ynghylch perthnasoddd, rhoddion a lletygarwch, cyfrinachedd, ymddygiad personol a'r gofyniad i ddatgan buddiannau sy'n gwrthdaro.

7.4 Cydweithio i atal Twyll ac Arferion Llwgr

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn parhau i gynnal a datblygu ei gysylltiadau gyda sefydliadau eraill yn ei ymdrechion i atal twyll ac arferion llwgr.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweithio ochr yn ochr ag Awdurdodau eraill fel rhan o Grŵp Prif Archwilwyr Cymru, lle mae pryderon ynghylch twyll yn cael eu trafod a'u hystyried. Nid yw twyll yn cael ei gyfyngu gan ffiniau a bydd cydweithio o'r math hwn yn caniatáu i arferion gorau,

sgiliau a gwybodaeth gael eu rhannu gan yr holl Awdurdodau.

8. Hybu Ymwybyddiaeth o Waith Atal Twyll ac Arferion Llwgr

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn rhoi gwybodaeth i'w randdeiliaid drwy Negeseuon E-bost i Staff, llythyrau newyddion misol, gwefan y Cyngor a'i dudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol am fentrau Atal Twyll ac Arferion Llwgr.

Mae hyn yn ymdrin â materion megis:

- Mentrau yn ymwneud â lleihau Twyll Budd-daliadau.
- Materion ym maes Diogelu'r Cyhoedd yn ymwneud â masnachwyr ffug.
- Rhybuddion am dwyll yn ymwneud ag anfonebau ffug / sgamiau loteri.

Bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r Strategaeth Atal Twyll ac Arferion Llwgr ar y Fewnwyd gyda chynghor a chanllawiau eraill diweddar ar faterion cyfredol a bydd yn hwyluso hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o dwyll i'r staff yn ôl yr angen.

Mae'r Awdurdod yn cynorthwyo â'r gwaith o ddarparu rhaglenni hyfforddiant a dosbarthu gwybodaeth berthnasol er mwyn sicrhau y caiff cyfrifoldebau a dyletswyddau eu pwysleisio a'u hatgyfnerthu. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i ddarparu gwybodaeth i drydydd partïon sy'n darparu gwasanaethau i ac ar ran y Cyngor.

9. Nodau ac Amcanion y Strategaeth

Ein nod yw:

Gwneud gwell defnydd o adnoddau

Gwarchod adnoddau gwerthfawr y Cyngor trwy sicrhau na chânt eu colli trwy dwyll ond y cânt eu defnyddio i wella gwasanaethau i breswylwyr ac ymwelwyr Sir Gaerfyrddin.

Atal Twyll, drwy ddeall achos sylfaenol problemau a sbarduno gwelliannau ar gyfer effaith hirdymor

Creu a hybu diwylliant 'gwrth-dwyll' sy'n pwysleisio agwedd dim goddefgarwch y Cyngor at dwyll, llwgrwobrwyo, arferion llwgr a dwyn.

Darparu argymhellion i lywio gwelliannau i bolisiâu, systemau, gwaith rheoli risg a rheolaeth, a thrwy hynny lleihau'r tebygrwydd y bydd y Cyngor yn wynebu perygl gweithgarwch twyllodrus.

Creu amgylchedd sy'n ei gwneud yn bosibl rhoi gwybod am unrhyw amheuan dilys am weithgarwch twyllodrus. Fodd bynnag, ni fyddwn yn goddef honiadau maleisus neu flinderus neu honiadau sydd wedi'u hysgogi gan elw personol; os caiff y rhain eu profi, mae'n bosibl y byddwn yn cymryd camau disgyblu neu gamau cyfreithiol.

Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ganfod atebion cynaliadwy a rennir

Gweithio gyda'n partneriaid a chyrrff ymchwilio eraill i gryfhau ein trefniadau i atal twyll ac arferion llwgr a'u gwella'n barhaus.

10. Casgliad

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymfalchïo mewn gosod a chynnal safonau uchel a diwylliant o fod yn agored, gyda gwerthoedd craidd **Uniondeb, Cymryd Cyfrifoldeb** a **Rhagoriaeth**. Mae'r Strategaeth hon yn llwyr gefnogi dymuniad y Cyngor i gynnal awdurdod onest sy'n rhydd rhag twyll ac arferion llwgr.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i agwedd **dim goddefgarwch** at dwyll ac arferion llwgr ac mae ganddo rwydwaith o systemau a gweithdrefnau i'w gynorthwyo wrth fynd i'r afael â thwyll ac arferion llwgr pan fônt yn digwydd. Mae'n benderfynol y bydd y trefniadau hyn yn cadw i fyny ag unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol o ran technegau atal a chanfod gweithgarwch twyllodrus neu lwgr a allai effeithio ar ei weithrediad er mwyn diogelu buddiannau'r Cyngor a'i gwsmeriaid.

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn adolygu'r holl systemau a gweithdrefnau hyn yn barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn effeithiol.

SIART LLIF RHOI GWYBOD AM DWYLL AC ARFERION LLWGR

MAE TWYLL NEU ARFERION LLWGR YN CAEL EU CANFOD NEU EU HAMAU

Camau i'w cymryd:

Rhoi gwybod i'r swyddog priodol gan ddefnyddio'r siart llif canlynol.

A YW'R DROSEDD YN YMWNEUD Â BUDD-DAL TAI, Y DRETH GYNGOR NEU FATHODYNNAU GLAS?

Ydy



CYSYLLTWCH Â'R SWYDDOG YMCHWILIO TWYLL

fraud@sirgar.gov.uk

01554 742129

Nac ydy



CYSYLLTWCH Â'R PENNAETH REFENIW A CHYDYMFFURFIAETH ARIANNOL

HLPugh@sirgar.gov.uk

01267 246223

Bydd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol yn asesu'r wybodaeth ac yn cael trafodaeth gyda Swyddog Adran 151 yr Awdurdod.

Bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a ddylid cyfeirio'r mater at yr Heddlu i ofyn am ymchwiliad troseddol.

Os amheuir bod gweithiwr wedi cyflawni twyll, rhoddir ystyriaeth i'r angen i atal y gweithiwr fel rhan o gweithredu'r weithdrefn ddisgyblu.

Bydd pob achos o dwyll neu arferion llwgr tybiedig yn cael ei adrodd i Brif Weithredwr yr Awdurdod.